**Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru**

Wales Wildfire Board

# #LlosgilAmddiffyn: Cynllun Cyfathrebu Amlasiantaethol Cymru Gyfan Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru

Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru
Wales Wildfire Board

## Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3
Ein Partneriaid ........ 3
Ymgyrch Llosgi i Amddiffyn ........ 4
Ein Dull o Gyfathrebu ........ 5
Ein Hymrwymiadau ........ 5
Ein Nodau ........ 6
Ein Cynulleidfaoedd ........ 8
Ein Cynllun ........ 9
Ein Negeseuon Allweddol ........ 10
Ein Deunyddiau ........ 14
Datganiad i'r Wasg Lansio #LlosgiIAmddiffyn (Cymraeg) ........ 14
Datganiad i'r Wasg y gyfer Lansio #LlosgiIAmddiffyn (Cymraeg).... **Error! Bookmark not defined.**
Negeseuon cyfryngau cymdeithasol #LlosgiIAmddiffyn ........ 17
Amddiffyn ein Cefn Gwlad a'n Gwlad ........ 17
Cyngor ar greu Cynlluniau Llosgi i Ffermwyr a Thirfeddianwyr ... **Error! Bookmark not defined.**
Negeseuon Penodol am y Gwasanaeth Tân ........ 21
Negeseuon Penodol am Iechyd y Cyhoedd ........ 22
Negeseuon Amgylcheddol ........ 22

# Cyflwyniad

Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn esblygiad o'r Bwrdd Strategol i Leihau Tanau Bwriadol, ac fe'i sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2023 gyda'r nod o ddylunio, o ddatblygu ac o weithredu dull newydd o fynd i'r afael ag effaith tanau gwyllt ledled Cymru.

Lluniwyd Siarter Tanau Gwyllt Cymru o amgylch tair thema allweddol sy'n galluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar y meysydd hynny sydd angen y mwyaf o sylw a'r rhai a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar eu dealltwriaeth o danau gwyllt; o'i llunio bydd asiantaethau'n ystyried sut maen nhw'n mynd ati i atal tanau gwyllt ac i ddiogelu eu cymunedau a'u hamgylcheddau, a thrwy hynny bydd dull cadarn a chyson o reoli risg tanau gwyllt yn cael ei sefydlu ledled Cymru.

## Ein Partneriaid

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Dyfed Powys, Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent, Heddlu Gogledd Cymru, Y Swyddfa Dywydd, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ffermwyr Ifanc Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Eryri, Cadwch Gymru'n Daclus, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CrimeStoppers.

# Ymgyrch Llosgi i Amddiffyn

Fel rhan o Siarter Tanau Gwyllt Cymru, mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru a'i bartneriaid yn ymroi i siarad ag un llais pan fyddant yn rhannu negeseuon, yn gwella ymwybyddiaeth ac yn addysgu ynghylch tanau gwyllt ledled Cymru.

Dan arweiniad Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, bu cynrychiolwyr cyfathrebu'n gweithio i werthuso pa mor llwyddiannus fu'r Bwrdd Strategol i Leihau Tanau Bwriadol yn cyfathrebu ac ymgysylltu ac yn ystyried mewnbwn gan asiantaethau partner a chynrychiolwyr cymunedol, ac yna aethant ati i ddatblygu'r Ymgyrch Llosgi i Amddiffyn.

Yn un o ddwy ymgyrch sy'n cael eu gyrru gan Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru, amcan cyffredinol yr ymgyrch Llosgi i Amddiffyn yw datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r broblem tanau gwyllt yng Nghymru a dull cyson a chymunedol sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd o ddelio â'r mater, gan ganolbwyntio'n benodol ar ffermwyr a thirfeddianwyr.

Gan gydnabod bod tân wedi bod yn rhan o ecoleg naturiol yr ucheldir a rhai rhannau o'r iseldir ers miloedd o flynyddoedd, a'i fod hefyd yn un o'r dulliau rheoli tir hynaf a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, rheoli hela ac, yn fwy diweddar, rheoli cadwraeth bywyd gwyllt, mae'r ymgyrch Llosgi i Amddiffyn yn annog ffermwyr a thirfeddianwyr i weithio ar y cyd â'u Gwasanaeth Tân lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Undebau i sicrhau eu bod yn llosgi'n gyfrifol ac yn ddiogel, yn unol â'r Cod Llosgi Grug a Glaswellt.

# Ein Dull o Gyfathrebu

Y ddogfen hon sy'n sefydlu ein dull cyfathrebu ar gyfer ymgyrch Llosgi i Amddiffyn Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, gan gynnwys nodi pwy yw'r gynulleidfa darged a beth yw'r negeseuon allweddol, yn ôl yr hyn a gytunwyd rhwng pob asiantaeth sy'n rhan o'r ymgyrch amlasiantaethol.

Y bwriad yw i'r negeseuon gyfleu:

- Addysg gydweithredol a rhagweithiol.
- Gweithgareddau dargyfeirio a gorfodi.
- Cyd-ddealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn gyfrifol a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol wrth losgi tir.
- Pwysigrwydd gweithredu strategaethau atal tanau gwyllt effeithiol wrth losgi tir.
- Yr hyn y gall rhanddeiliaid ei wneud i helpu i ddiogelu ein cymunedau rhag effeithiau dinistriol tanau gwyllt.

Bydd y dull cyfathrebu yn cael ei gydlynu a'i fonitro gan Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru, ei grwpiau cysylltiedig o ymarferwyr a, phan fo angen, yng nghynadleddau ffôn wythnosol Ymgyrch Dawns Glaw.

## Ein Hymrwymiadau

Mae Tîm Cyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi creu tudalen ymgyrchoedd ar wefan y Gwasanaeth #LosgiiAmddiffyn, ac yno cewch afael yn rhwydd ar yr holl ddeunyddiau a ddatblygwyd i gefnogi'r ymgyrch Llosgi i Amddiffyn, gan gynnwys negeseuon dwyieithog wedi'u hysgrifennu ymlaen llaw ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a graffeg i'w lawrlwytho ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

Bydd Tîm Cyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd yn rhan o'r gwahanol grwpiau sy'n gysylltiedig â Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, a byddant yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r holl asiantaethau am ddatblygiadau

nodedig, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wneir i'r dull o gyfathrebu a defnyddio'r cyfryngau.

Gofynnir i bob asiantaeth anfon copïau o'u holl weithgareddau cyfathrebu rhagweithiol i Ddesg y Wasg Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (pressofficer@mawwfire.gov.uk) er mwyn iddynt gydlynu log o weithgareddau.

Gofynnwn hefyd i bob asiantaeth sicrhau eu bod yn hysbysu Cadeirydd Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru os cânt unrhyw gynnig i wneud cyfweliad i'r wasg. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â Desg y Wasg Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru drwy e-bostio pressofficer@mawwfire.gov.uk.

Bydd cynigion i gyfathrebu ac ymddangos yn y cyfryngau lleol yn cael eu cydlynu gan y partneriaid sydd ar Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru, a hynny er mwyn sicrhau bod materion lleol yn cael sylw priodol ac yn cael eu hyrwyddo yn ôl yr angen, yn ogystal ag i sicrhau bod unrhyw negeseuon yn cyd-fynd ag amcanion, nodau a dulliau cyfathrebu ehangach y Bwrdd.

Anogir pob asiantaeth i rannu unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo a grëwyd i gefnogi gweithgareddau Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, fel sydd wedi'i amlinellu yn y Siarter Tanau Gwyllt. Unwaith eto, bydd y deunydd hwn yn cael ei rannu ar dudalen we yr ymgyrch a bydd yn cael ei gydlynu gan Dîm Cyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

## Ein Nodau

Bydd gweithgarwch cyfathrebu yn cael ei wneud i hyrwyddo pob agwedd ar yr ymgyrch yn ôl yr angen, gan gynnwys:

- Cefnogi ymgysylltiad â thirfeddianwyr a ffermwyr er mwyn amlygu gwerth cydweithrediad â Bwrdd Tân Gwyllt Cymru a'i bartneriaid er mwyn cynnal a rheoli tir yn gyfrifol a lleihau effaith tanau gwyllt. Bydd hyn hefyd yn ystyried y

peryglon sy'n gysylltiedig â chynnau tanau ar dir agored eang ac yn ailadrodd gofynion Llywodraeth Cymru ar reoliadau llosgi glaswellt a rhedyn.

- Ein helpu i ymgysylltu ag asiantaethau twristiaeth ledled Cymru er mwyn annog pobl i fwynhau ein cefn gwlad mewn ffordd gyfrifol ac i leihau achosion o gynnau tanau damweiniol.
- Cefnogi criwiau’r ochr weithredol i addysgu aelodau o'r gymuned am y technegau diffodd tân mwyaf priodol i’w defnyddio ym mhob digwyddiad - hyd yn oed pan fo hynny’n golygu sefyll yn ôl a chaniatáu i'r tân losgi – er mwyn lleihau achosion o aildanio.
- Atgyfnerthu'r neges am yr effaith mae tanau yn ei gael ar ein bywyd gwyllt a'u cynefinoedd trwy rannu delweddau o effeithiau tân a lluniau drôn.
- Ein helpu i ymgysylltu â grwpiau gwirfoddol a’r rhai sy’n defnyddio cefn gwlad er mwyn eu haddysgu am ganlyniadau cynnau tanau, boed o fwriad neu ar ddamwain, a'u cynnwys yn y gwaith o gasglu gwybodaeth.

# Ein Cynulleidfaoedd

- Tirfeddianwyr, Ffermwyr, Rheolwyr Tir a Chominwyr – y ffenestr amser pan ganiateir llosgi dan reolaeth, cydweithio ag asiantaethau priodol i gynnal ac i reoli tir yn gyfrifol.
- Grwpiau cerdded/defnyddwyr cefn gwlad – Rhowch wybod am unrhyw bryderon.
- Ymwybyddiaeth gyffredinol y cyhoedd – damweiniol/bwriadol/tanau bwriadol yn drosedd / ein dull o ddiffodd tanau / cyfrannu at amddiffyn eich cymunedau, eu trigolion a'u hiechyd, a'r amgylchedd ehangach.
- RSPB / RSPCA / Sefydliadau Bywyd Gwyllt – cael mwy o lais o ran strategaethau atal a pharchu eich cefn gwlad a'i fywyd gwyllt.
- Heddlu – tanau bwriadol yn drosedd/erlyniadau/hysbysiad gwasgaru o fewn ardaloedd lle mae llawer o danau yn cael eu cynnau.

# Ein Cynllun

- Datganiadau ar y Cyd i'r Wasg – Un i'w rhannu ar y dechrau ac yna yn ymatebol yn ôl yr angen. Er mwyn sicrhau cysondeb o ran y neges a'r ystadegau a rennir, danfonwch gopi o'r holl ddatganiadau a wneir i'r wasg i pressofficer@mawwfire.gov.uk er mwyn iddynt eu hychwanegu at dudalen we yr ymgyrch a'u rhannu gyda'r grŵp er gwybodaeth.
- Astudiaethau Achos – Os bydd sefydliadau unigol yn gweld cyfle i dynnu sylw at astudiaeth achos benodol yn eu hardal, ewch ati i wneud hynny os gwelwch yn dda. Cofiwch ei anfon at ddesg y wasg Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd, er mwyn iddynt ei rannu ar draws Grŵp Tanau Gwyllt Cymru.
- Hysbysebion radio – Mae'r grŵp yn annog y defnydd o hysbysebion radio i hyrwyddo gwaith Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru a'i negeseuon allweddol. Oherwydd natur darllediadau radio, gellir trefnu hysbysebion radio ar lefel leol gan ddefnyddio'r negeseuon sydd yn y ddogfen hon.
- Negeseuon allweddol / negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol – Mae casgliad o negeseuon awdurdodedig/wedi'u cyfieithu i'w cael ar dudalen yr ymgyrch sydd ar wefan Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru #LosgiiAmddiffyn yn ogystal â graffeg i'w lawrlwytho ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

# Ein Negeseuon Allweddol

- Trwy weithio mewn partneriaeth sy'n esblygu, byddwn yn dod â Llywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Brys, Sefydliadau Cyhoeddus a Phreifat, Tirfeddianwyr a Defnyddwyr Tir at ei gilydd i reoli ac i ddatblygu ein tirwedd.
- Byddwn yn cyfrannu at reoli ein tirwedd er mwyn diogelu bywyd gwyllt, coedwigaeth a bywoliaethau; i wella lles, iechyd ac amwynder, i hwyluso cynhyrchu bwyd cynaliadwy, ac i greu ymdeimlad o le a pherchnogaeth gymunedol.
- Byddwn yn gweithredu ystod amrywiol o dechnegau rheoli er mwyn lleihau effaith tanau gwyllt ar ein cymunedau ac ar dirwedd Cymru.
- Mae tanau gwyllt yn gyfrifol am ddinistrio miloedd o hectarau o gefn gwlad, mannau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt bob blwyddyn.
- Bydd partneriaid y Bwrdd Tanau Gwyllt yn ymrwymo i weithio gyda'n cymunedau er mwyn creu tirwedd sy’n iachach ac yn fwy gwydn, a hynny trwy wella bioamrywiaeth ar gyfer ein dyfodol.
- Nod Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru, gyda’u dull aml-asiantaethol o ymdrin ag ymwybyddiaeth tanau gwyllt, yw ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol, cydweithio er mwyn cefnogi’r gwaith o reoli tanau gwyllt, ac i wrando a rhannu datrysiadau ymarferol ar gyfer Cymru.
- Drwy ddefnyddio dull cydweithredol, mae’r asiantaethau sy’n rhan o Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn gobeithio cynnig gwell dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei wneud i gyfyngu ar nifer y tanau gwyllt, a thrwy hynny leihau'r difrod y gallant ei achosi i'n hamgylchedd.
- Mae pob asiantaeth ar Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru eisiau deall a chydnabod effeithiau asiantaethau eraill y Bwrdd a chydweithio i ddatblygu ymyriadau cynnar effeithiol ar gyfer tanau gwyllt yng Nghymru.

- Er mwyn deall a chydnabod effeithiau ein gilydd ac i ddatblygu ystod o ymyriadau cynnar ar gyfer tanau gwyllt yng Nghymru, mae angen i bartneriaid gydweithio a chyfathrebu'n effeithiol.
- Os ydym eisiau gweithredu ag un llais wrth anfon negeseuon, wrth wella ymwybyddiaeth ac wrth addysgu am danau gwyllt ledled Cymru, mae'n hanfodol fod yr holl randdeiliaid perthnasol yn dod ynghyd ac yn cydweithio.
- Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth er mwyn meithrin ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chefnogaeth ar gyfer rheoli risg tanau gwyllt.
- Er mwyn rheoli nifer, graddfa, difrifoldeb ac effaith achosion o danau gwyllt, mae angen dull cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar atal, ar ganfod yn gynnar, ac ar ymateb yn gyflym.
- Er mwyn addasu i ddatblygiadau ym myd natur a'r hinsawdd, adfer cysylltiadau â mannau gwyrdd a chymunedau, yn ogystal â chyfyngu ar losgi llystyfiant heb reolaeth, mae'n bwysig defnyddio dull amlweddog sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned, rheoli tir, ac arferion sy'n cefnogi'r hinsawdd.
- Er mwyn cadw'r aer yn lanach ac i ddiogelu adnoddau naturiol a threftadaeth wrth leihau'r risg o danau gwyllt, mae angen defnyddio dull cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar leihau allyriadau, annog y defnydd cynaliadwy o dir, a diogelu adnoddau naturiol a diwylliannol.
- Mae diogelu ffynonellau carbon mewn pridd a choetiroedd yn hanfodol ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd ac er mwyn annog atafaelu carbon.
- Mae Rheoli Risg Tanau Gwyllt ar lefel Rheoli Tirwedd yn golygu mabwysiadu dull cyfannol o reoli'r tir ac o leihau'r risg o danau gwyllt.
- Mae tanau gwyllt yn peryglu bywydau. Bydd yn cymryd mwy o amser i'r Gwasanaeth Tân ac Achub ymateb i argyfyngau sy'n peryglu bywydau, fel

tanau mewn tai neu wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, os ydynt eisoes yn brysur yn mynd i'r afael â thân gwyllt.

- Trwy sefydlu rhwydwaith cydweithredol, nodi bylchau mewn gwybodaeth ac anghenion hyfforddi, datblygu deunyddiau hyfforddi priodol, a darparu hyfforddiant trwy amrywiol ddulliau, gall y rhanddeiliaid weithio gyda'i gilydd i gynyddu eu gallu ac i wella arferion rheoli risg tanau gwyllt yng Nghymru.
- Bydd rhannu gwybodaeth ac arferion gorau hefyd yn helpu i gryfhau’r cydweithredu, yn magu ymddiriedaeth, ac yn annog un weledigaeth rhwng pawb ar gyfer rheoli risg tanau gwyllt.
- Trwy greu Map Risg Tân amlswyddogaethol a phecyn cymorth ar gyfer technegau ataliol o reoli tir, gall rhanddeiliaid nodi ardaloedd lle mae risg uchel o danau gwyllt a gweithredu strategaethau rheoli tir sydd wedi'u targedu i leihau'r risg hon. Gellir defnyddio'r map a'r pecyn cymorth wrth wneud penderfyniadau ynghylch rheoli tir, wrth dargedu adnoddau, ac wrth wella ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mesurau ataliol i leihau effaith tanau gwyllt yng Nghymru.
- Trwy rannu adnoddau a gweithredu mesurau atal, gall rhanddeiliaid ar Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru leihau nifer a difrifoldeb tanau gwyllt yng Nghymru.
- Gall defnyddio dull cydweithredol sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid ei gwneud yn haws i adnabod ardaloedd o risg uchel ac i ddatblygu strategaethau effeithiol i atal tanau gwyllt.
- Gellir defnyddio systemau rhybudd cynnar i ymateb yn gyflym pan fo perygl o danau gwyllt, a gall ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth helpu i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd mesurau ataliol.
- Mae tanau gwyllt yn beryglus ac yn anwadal; gallant ledaenu y tu hwnt i bob rheolaeth yn gyflym iawn.

- Gall mwg tân gwyllt effeithio ar eich anadlu, gall beri llid ar eich croen ac yn eich llygaid, ac achosi poenau yn y frest.
- Gall tanau gwyllt wneud difrod difrifol i’n cefn gwlad a’n hamgylchedd.
- Mae tanau gwyllt yn dinistrio bywyd gwyllt a da byw.
- Mae tanau gwyllt yn costio miliynau o bunnoedd i economi Cymru bob blwyddyn.
- Mae mwg o danau gwyllt yn niweidiol i’ch iechyd; os oes tân gwyllt yn eich ardal chi, arhoswch yn y tŷ a chadwch y drysau a'r ffenestri ar gau.

# Ein Deunyddiau

## Datganiad i'r Wasg Lansio #LlosgiIAmddiffyn (Cymraeg)

**Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn annog ffermwyr a thirfeddianwyr i #LosgiIAmddiffyn cefn gwlad Cymru yn ystod y tymor llosgi.**

Gan gydnabod bod tân wedi bod yn rhan o ecoleg naturiol yr ucheldir a rhai rhannau o’r iseldir ers miloedd o flynyddoedd, a'i fod hefyd yn un o'r dulliau rheoli tir hynaf a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, rheoli hela ac, yn fwy diweddar, rheoli cadwraeth bywyd gwyllt, mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn annog ffermwyr a thirfeddianwyr i weithio ar y cyd â'u Gwasanaeth Tân lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Undebau i sicrhau eu bod yn llosgi'n gyfrifol ac yn ddiogel.

Gall ffermwyr a thirfeddianwyr losgi grug, glaswellt, rhedyn ac eithin o 1 Hydref hyd at 15 Mawrth (hyd at 31 Mawrth ar ucheldir), ond rhaid iddyn nhw gael Cynllun Llosgi er mwyn sicrhau eu bod yn llosgi'n ddiogel.

Fel rhan o'u hymgyrch Llosgi i Amddiffyn, mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn atgoffa tirfeddianwyr o gyngor syml a fydd yn helpu i sicrhau llosgi cyfrifol:

- Rhowch wybod ymlaen llaw i'ch Gwasanaeth Tân ac Achub lleol er mwyn osgoi galwadau diangen a chriwiau’n cael eu danfon allan heb fod eisiau yn ogystal â sicrhau ein bod yn barod i ymateb os bydd llosgiad yn mynd allan o reolaeth.
- Sicrhewch fod gennych ddigon o bobl ac offer i reoli'r tân.
- Edrychwch ar gyfeiriad y gwynt a sicrhau nad oes unrhyw risg i eiddo, ffyrdd a bywyd gwyllt.
- Os collir rheolaeth ar dân, cysylltwch â'r gwasanaeth tân ar unwaith gan roi manylion am y lleoliad a sut mae cael mynediad yno.
- Mae'n anghyfreithlon gadael tân heb neb yn gofalu amdano neu heb ddigon o bobl yn ei reoli.
- Sicrhewch bob amser fod tân wedi diffodd yn llwyr cyn i chi ei adael ac ewch i’w weld drannoeth i sicrhau nad yw wedi ailgynnau.

Dywedodd Iwan Cray, Cadeirydd Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru a Dirprwy Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:

"Fel rheolwyr tir, rydych yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu ein cymunedau rhag effeithiau dinistriol tanau gwyllt. Mae eich tir a'ch bywoliaeth nid yn unig yn hanfodol i chi ond maent hefyd yn hanfodol i'n ecosystem ehangach ac i’r economi .

"Rydym yn eich annog i weithredu strategaethau effeithiol i atal tanau gwyllt pan fyddwch yn llosgi eich tir.

"Mae llosgi'ch tir mewn modd cyfrifol yn hanfodol i amddiffyn eich asedau, sicrhau diogelwch eich teulu a cheisio gwneud yn siŵr bod eich tir yn dal i gynhyrchu tra'ch bod hefyd yn parchu cefn gwlad ac yn chwarae eich rhan i ddiogelu ein hamgylchedd a chadw ein cymunedau'n ddiogel.

“Gellir atal llawer iawn o danau gwyllt, ac mae ambell i beth bach y gallwn ei wneud er mwyn cyfyngu ar ba mor aml y maent yn digwydd a chyfyngu ar eu heffaith.”

Dywedodd Andrew Wright, Dirprwy Gadeirydd Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru ac Uwch Gynghorydd Arbenigol - Iechyd Planhigion a Throsglwyddo Gwybodaeth gyda Chyfoeth Naturiol Cymru:

“Mae'n hanfodol bwysig ein bod i gyd yn parhau i gydweithio i greu tirwedd sy’n iachach, yn wytnach, ac â mwy o fioamrywiaeth yma yng Nghymru, gan wneud popeth allwn ni i ddiogelu'r adnodd gwerthfawr hwn ar gyfer y dyfodol.

“Rydyn ni eisiau gweithio gyda ffermwyr a pherchnogion tir er mwyn rhannu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r effaith mae tanau bwriadol a damweiniol yn ei chael ar ein cymunedau. Rydyn ni’n deall bod llosgi dan reolaeth yn gallu cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, gan greu bioamrywiaeth ac ecosystem gynaliadwy ac rydyn ni ar gael i roi cyngor am ddim am sut i wneud hyn yn ddiogel.”

Trwy weithio gyda'n cymunedau i rannu gwybodaeth, mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn gobeithio gwella dealltwriaeth o'r hyn y gall y Gwasanaeth ei wneud i atal tanau damweiniol rhag digwydd ac i gyfyngu ar y difrod y gallant ei wneud i'r amgylchedd.

Gallwch ddysgu mwy am #LlosgiIAmddiffyn 2024 drwy fynd i #LosgiIAmddiffyn Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal â chael awgrymiadau diogelwch syml a negeseuon diogelwch yr ymgyrch i'w lawrlwytho a’u defnyddio ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun. Gyda'n gilydd, gallwn atal tanau glaswellt ac amddiffyn ein cefn gwlad a Chymru.

Cofiwch - os ydych allan yng nghefn gwlad ac yn gweld unrhyw un yn ymddwyn yn amheus, ffoniwch Crimestoppers yn ddienw trwy alw 0800 555 111, neu ffoniwch 101. Os yw’n argyfwng, ffoniwch 999 bob tro.

**Nodiadau i’r Golygydd:**

Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn ddull amlasiantaethol o wella ein dealltwriaeth a’n rheolaeth o’r perygl y mae tanau gwyllt yn ei beri i amgylchedd a chymunedau Cymru.

Wedi ei gyflwyno trwy Siarter Tanau Gwyllt Cymru, y nod yw adeiladu ar y sylfaen o wybodaeth a phrofiad a enillwyd dros y degawd diwethaf, a hynny gan ystyried perygl hollbresennol newid hinsawdd yn ogystal â chydnabod gwerth annog cymunedau ac

unigolion i weithio gyda'i gilydd i ddiogelu'r ardaloedd lle maent yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw.

Amcan y bwrdd yw ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol, cydweithio er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli tanau gwyllt, ac i wrando a rhannu datrysiadau ymarferol ar gyfer Cymru. Drwy ddefnyddio'r dull cydweithredol hwn, mae'r asiantaethau sy'n rhan o Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn gobeithio cynnig gwell dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei wneud i gyfyngu ar nifer y tanau gwyllt, a thrwy hynny leihau'r difrod y gallant ei achosi i'n hamgylchedd.

# Negeseuon cyfryngau cymdeithasol #LlosgiIAmddiffyn

### Amddiffyn ein Cefn Gwlad a'n Gwlad

| ENW’R DDELWEDD | TESTUN CYMRAEG | TESTUN SAESNEG |
| --- | --- | --- |
| **Protecting the Countryside and our Country_1** | Mae tanau anghyfrifol / heb eu rheoli yn dinistrio miloedd o hectarau o gefn gwlad, tir agored a chynefinoedd bywyd gwyllt bob blwyddyn. Mae llawer o’r tanau hyn yn cael eu hachosi gan ein hymddygiad ni, ac mae modd eu hatal. Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân lleol a gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i losgi'n gyfrifol. #LlosgiIAmddiffyn | Every year irresponsible / uncontrolled fire is attributable to the destruction of thousands of hectares of countryside, open space, and wildlife habitats. Many of these fires are preventable and caused by our behaviour. Contact your local Fire Service and let's work together to burn responsibly. #BurnToProtect |
| **Protecting the Countryside and our Country_2** | Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn eich annog i ddefnyddio strategaethau effeithiol i atal tanau gwyllt wrth losgi eich tir. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | The Wales Wildfire Board are urging you to implement effective wildfire prevention strategies when burning your land. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |
| **Protecting the Countryside and our Country_3** | Rydym yn gwybod bod llosgi eich tir yn hanfodol er mwyn diogelu eich asedau a sicrhau fod y tir yn dal i gynhyrchu. Parchwch eich cefn gwlad a gwnewch eich rhan i ddiogelu ein hamgylchedd a chadw ein cymunedau'n ddiogel trwy losgi'n gyfrifol. #LlosgiIAmddiffyn | We know that burning your land is crucial in protecting your assets and maintaining its productivity. Respect your countryside and play your part in safeguarding our environment and keeping our communities safe by burning responsibly #BurnToProtect |

**Cyngor ar greu Cynlluniau Llosgi i Ffermwyr a Thirfeddianwyr**

| ENW'R DDELWEDD | TESTUN CYMRAEG | TESTUN SAESNEG |
|---|---|---|
| **Burn Plan_1** | Ydych chi'n bwriadu cynnau tân dan reolaeth ar eich tir? Cofiwch fod y cyfnod llosgi rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth yn yr ucheldiroedd a rhwng 1 Tachwedd a 15 Mawrth mewn ardaloedd eraill. Mae'n anghyfreithlon llosgi yn ystod yr oriau tywyll. Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân lleol a gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i losgi'n gyfrifol. #LlosgiIAmddiffyn | Planning a controlled burn on your land? Remember the burn period is between 1 October and 31 March in upland areas and 1 November - 15 March in other areas. Burning in the hours of darkness is illegal. Contact your local Fire Service and let's work together to burn responsibly. #BurnToProtect |
| **Burn Plan_2** | Ydych chi'n bwriadu cynnau tân dan reolaeth? Ydych chi wedi rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Tân? Cysylltwch â'n Hystafell Reoli ar 01268 909408 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | Planning a controlled burn? Have you informed the Fire Service? Contact our Control Room on 01268 909408 to keep them. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |
| **Burn Plan_3** | Bydd unrhyw rai sy'n cael eu canfod yn cynnau tân y tu allan i'r Cyfnod Llosgi (mis Hydref i fis Mawrth) yn cael eu herlyn a gallai effeithio ar eich taliadau fferm sengl gan Lywodraeth Cymru. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | Anyone found burning outside of the Burn Period (Oct to March) will be prosecuted and it could affect your single farm payments from Welsh Gov. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |
| **Burn Plan_4** | Mae angen Cynllun Llosgi arnoch er mwyn cynnau tân dan | To conduct a controlled burn, you need to have a Burn Plan – |

| | | |
|---|---|---|
| | reolaeth – gallwch ddod o hyd i Gynllun Llosgi ar wefan Llywodraeth Cymru Cover welsh plan 1b.pdf, page 2 @ Preflight. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | you can find a Burn Plan on the Welsh Gov website (Cover english plan 1b.pdf, page 1 @ Preflight. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |
| **Burn Plan_5** | Ni chaniateir tanau rhwng machlud a chodiad haul, hyd yn oed yn ystod y Cyfnod Llosgi (mis Hydref i fis Mawrth). Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | Even inside the Burn Period (October to March) you cannot burn between Sunset and Sunrise. Help stop deliberate fires by burning responsibly. #BurnToProtect |
| **Burn Plan_6** | Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynllunio eich tân a bod gennych ddigon o adnoddau i sicrhau y gellir ei reoli'n effeithiol a'i ddiffodd os oes angen. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | Make sure you plan your burn and have enough resources available to ensure it can be managed effectively and extinguished if required. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |
| **Burn Plan_7** | Ydych chi'n Bwriadu Cynnau Tân dan Reolaeth? Rhowch wybod i'ch cymdogion a gwnewch yn siŵr bod da byw mewn lle diogel i ffwrdd oddi wrth lwybr y tân. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | Planning a Controlled Burn? Inform your neighbours and ensure that livestock is in a safe place away from the fire path. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |

| | | |
|---|---|---|
| **Burn Plan_8** | Ydych chi'n bwriadu #CynnauTânDanReolaeth? Mae tanau'n teithio'n gyflymach i fyny'r allt ac yn llosgi'n fwy ffyrnig nag y maent tuag at i lawr. Cofiwch - gall tân ledaenu'n gyflymach nag y gallwch chi redeg. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | Planning a #ControlledBurn? Fire will travel uphill quicker and will burn more intensely than it does downhill. Remember - it can spread quicker than you can run. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |
| **Burn Plan_9** | Ydych chi'n Bwriadu Cynnau Tân dan Reolaeth? Ystyriwch greu strimyn heb dân i atal y tân rhag lledaenu. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | Planning a Controlled Burn? Consider cutting a 'fire break' to prevent fire spread. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |
| **Burn Plan_10** | Wrth gynnau tân dan reolaeth - AR ÔL EI GYNNAU, PEIDIWCH Â'I ADAEL! Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod eich tân wedi diffodd yn llwyr cyn gadael y lleoliad! Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | When it comes to a controlled burn - IF YOU LIGHT IT DON'T LEAVE IT! It is your responsibility to ensure your fire is completely extinguished before leaving the area! Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |
| **Burn Plan_11** | Ydych chi'n Bwriadu Cynnau Tân dan Reolaeth? Dim ond ardal fechan, hawdd i'w rheoli, y dylech ei llosgi ar y tro. Mewn amodau llosgi hawdd, argymhellir y gall 1 person reoli llinell dân 5 metr yn effeithlon. Mae ymddygiad tanau glaswellt yn amhosibl i'w ragweld a gallant ddatblygu y tu hwnt i reolaeth o fewn munudau. #LlosgiIAmddiffyn | Planning a Controlled Burn? Only burn a small manageable area at a time. In easy burn conditions, it is recommended that 1 person can efficiently manage a 5-meter fire line. Grass fires are extremely unpredictable and can spiral out of control within minutes. #BurnToProtect |

| | | |
|---|---|---|
| **Burn Plan_12** | COFIWCH BOB AMSER roi gwybod i'ch Gwasanaeth Tân ac Achub lleol cyn cynnau tân dan reolaeth ac ar ôl i'r gwaith llosgi orffen. Cysylltwch â ni ar {control room number} #LlosgiIAmddiffyn | ALWAYS inform your local Fire and Rescue Service before a Controlled Burn and after a burn is complete. Contact us on {control room number} #BurnToProtect |
| **Burn Plan_13** | Ydych chi'n bwriadu cynnau tân dan reolaeth? Am gyngor ac arweiniad ewch i code cover w 1c.pdf, page 1 @ Preflight am fwy o wybodaeth. #LlosgiIAmddiffyn | Planning on carrying out a controlled burn? For advice and guidance visit Cover-english-code 1b.pdf, page 2 @ Preflight for more information. #BurnToProtect |

**Negeseuon Penodol am y Gwasanaeth Tân**

| ENW'R DDELWEDD | TESTUN CYMRAEG | TESTUN SAESNEG |
|---|---|---|
| **Fire Service_1** | Bob tro y byddwn yn ymateb i dân bwriadol sydd wedi mynd allan o reolaeth, rydych chi'n peryglu ein diffoddwyr tân yn ddiangen. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | Every time we attend a deliberately set fire that's got out of control, you put our firefighters needlessly at risk. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |
| **Fire Service_2** | Oeddech chi'n gwybod bod cost o filoedd o bunnoedd i'r trethdalwr bob tro y byddwn ni'n ymateb i dân glaswellt y collwyd rheolaeth arno? Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | Did you know it costs you the taxpayer thousands of pounds every time we attend an out-of-control grass fire? Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |

**Negeseuon Penodol am Iechyd y Cyhoedd**

| ENW'R DDELWEDD | TESTUN CYMRAEG | TESTUN SAESNEG |
|---|---|---|
| **Public Health_1** | Mae mwg o dân glaswellt yn gallu niweidio llwybrau anadlu, y croen a'r llygaid, gan achosi peswch, gwichian, diffyg anadl a phoen yn y frest. #LlosgiIAmddiffyn | Grass fire smoke can irritate airways, the skin and eyes, causing coughing, wheezing, breathlessness and chest pain. #BurnToProtect |
| **Public Health_2** | Gall mwg o dân glaswellt waethygu cyflyrau sy'n bodoli eisoes, fel asthma. #LlosgiIAmddiffyn | Grass fire smoke can worsen existing conditions such as asthma. #BurnToProtect |
| **Public Health_3** | Ydych chi'n poeni am symptomau y mae mwg o dân glaswellt wedi'u hachosi? Cysylltwch â'ch meddyg teulu neu ewch i www.nhsdirect.wales.nhs.uk #LlosgiIAmddiffyn | Concerned about symptoms caused by grass fire smoke? Contact your GP or visit www.nhsdirect.wales.nhs.uk #BurnToProtect |

**Negeseuon Amgylcheddol**

| ENW'R DDELWEDD | TESTUN CYMRAEG | TESTUN SAESNEG |
|---|---|---|
| **Environmental Message_1** | Mae llosgi cyfrifol nid yn unig yn gwella tir pori da byw ond hefyd yn creu gwell bioamrywiaeth a chynefinoedd mwy amrywiol. #LlosgiIAmddiffyn | Responsible burning not only improves poor livestock grazing but also creates a richer variety of Biodiversity and habitat. #BurnToProtect |
| **Environmental Message_2** | Trwy reoli tanau bach yn briodol, gallwn atal tanau mawr, dwfn yn ddiweddarach yn y flwyddyn sy'n achosi mwy o ddifrod i strwythur | By managing small fires correctly, we can prevent large deep-seated fires later in the year that cause more damage |

| | | |
|---|---|---|
| | y pridd ac sy'n rhyddhau tocsinau wedi'u storio i'r amgylchedd. Bydd llosgi'n gyfrifol yn eich diogelu chi, eich cymuned a'ch cefn gwlad. #LlosgiIAmddiffyn | to the soil structure and release stored toxins into the environment. Burning responsibly will protect you, your community and your countryside. #BurnToProtect |

**Yn Bresenol yn y Digwyddiad**

| IMAGE NAME | WELSH TEXT | ENGLISH TEXT |
|---|---|---|
| **Incident_1** | Rydym wedi ymateb i'r tân glaswellt yn {ENTER LOCATION} ac yn ei fonitro. Penderfynwyd ei adael i'w ddiffodd ei hun yn ddiogel. Diolch i chi am eich galwadau | We are in attendance and monitoring the grass fire at {ENTER LOCATION}. A decision has been taken to let it safely burn out. Thank you for your calls. |
| **Incident_2** | Rydym yn ymateb i dân glaswellt yn {ENTER LOCATION}. Gallwn eich sicrhau bod y tân o dan reolaeth a bod Diffoddwyr Tân yn ei fonitro'n agos yn y fan a'r lle | We are in attendance at a grass fire in {ENTER LOCATION}. Rest assured the fire is under control and is being closely monitored by Firefighters at scene. |
| **Incident_3** | Diolch i chi am eich galwadau mewn perthynas â thân glaswellt yn {ENTER LOCATION}. Rydym wedi ymateb iddo, ac mae'r tân yn cael ei fonitro'n agos | Thank you for your calls in relation to a grass fire at {ENTER LOCATION}. We have attended and the Fire is being closely monitored. |
| **Incident_4** | Rydym yn cael nifer mawr o alwadau ynghylch tân glaswellt yn {ENTER LOCATION}. Diolch i chi am eich pryderon. Mae Diffoddwyr Tân yn bresennol ac yn monitro'r sefyllfa | We are experiencing a high volume of calls relating to a grass fire at {ENTER LOCATION}. Thank you for your concerns. Firefighters are in attendance and monitoring the incident. |

**Negeseuon diolch**

| IMAGE NAME | WELSH TEXT | ENGLISH TEXT |
|---|---|---|
| **Thank you_1** | DIOLCH I CHI – i bob aelod o'r cyhoedd sydd wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Tân ac Achub, yr Heddlu a Crimestoppers gyda gwybodaeth am y rhai hynny sy'n gyfrifol am | THANK YOU - to all members of the public who have contacted the Fire and Rescue Service, the Police and Crimestoppers with information on those responsible for setting illegal |

| | | |
|---|---|---|
| | gynnau tanau anghyfreithlon yn eu cymuned. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol i'n cynorthwyo i leihau effaith y tanau hyn a'r gost ddiangen y maent yn ei hachosi i'n gwasanaethau brys. Daliwch ati i ffonio a negeseua ac anfon negeseuon e-bost! | fires in their community. This information is vital in assisting us to reduce the effect of these fires and the unnecessary drain these have on our emergency services. Keep the calls, emails and messages coming in! |
| **Thank you_2** | DIOLCH I CHI – i bawb sydd wedi cysylltu â ni, yr Heddlu a Crimestoppers gyda gwybodaeth am y rhai hynny sy'n gyfrifol am gynnau tanau anghyfreithlon yn eu cymuned. | THANK YOU – to everyone that has contacted us, the Police and Crimestoppers with information on those responsible for setting illegal fires in their community. |